# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | | **DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 14 RHAGFYR 2016 am 2.00 o'r gloch** | | **WEDNESDAY, 14 DECEMBER 2016 at 2.00 pm** |
| **SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Shirley Cooke 01248 752514** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

Derlwyn R Hughes, Victor Hughes (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Richard Owain Jones, Dafydd Rhys Thomas

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Vaughan Hughes (Cadeirydd/Chair), R.Meirion Jones, R G Parry OBE, FRAgS, Dylan Rees

**Llafur / Labour**

J Arwel Roberts

**Grwp Chwyldroad / Revolutionist Group**

Peter S Rogers

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd blaenorol o'r cyfarfod hwn a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 12 Mai, 2016
- 24 Hydref, 2016

3 **GWEDDARLLEDU** (Tudalennau 7 - 8)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr D R Hughes, Victor Hughes, R.Meirion Jones, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, R O Jones a Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS – Cadeirydd y Cyngor Sir |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd T. Victor Hughes yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Victor Hughes (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Owain Jones, R.Meirion Jones, R G Parry OBE, Dylan Rees a J A Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr K.P. Hughes, Alwyn Rowlands (Aelodau'r Pwyllgor Gwaith) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2016 fel rhai cywir, yn amodol ar gywiro Eitem 3 - Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2016/17 a ddylai ddarllen 'Dyrannwyd 15 swydd cyflog uwch i'r Cyngor yn 2015/16, ond penderfynwyd dyrannu cyflogau uwch i 14 deilydd swydd er mwyn lleihau costau democrataidd'.

**3 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar adroddiad drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar daliadau i Aelodau etholedig.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu codi lwfans sylfaenol Cynghorwyr o £13,300 i £13,400. Mae hwn yn gynnydd o 0.75% a dyma'r cynnydd cyntaf mewn 3 blynedd. Nid oes newid o safbwynt uwch gyflogau fydd yn parhau ar yr un lefel â 2016/17 ac mae nifer yr uwch gyflogau a ddyrennir i'r Cyngor yn parhau ar 15 ar gyfer 2017/18. Cyfeiriodd ymhellach at Adran 11 yr adroddiad sy'n rhoi manylion am newidiadau i'r fframwaith er mwyn darparu trefniadau penodol ar gyfer salwch hir dymor sy'n gyson â'r trefniadau ar gyfer absenoldeb teuluol. Argymhellir hefyd newid y modd y cyhoeddir manylion costau gofal, a darparwyd canllawiau yn Atodiad 4 adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd at Adrannau 3.16 i 3.18 yr adroddiad mewn perthynas â swyddogaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i adolygu'r cymorth a roddir i Aelodau Etholedig. Oherwydd yr angen i baratoi ar gyfer y Cyngor ym Mai 2017 argymhellir trefnu grwpiau ffocws i Aelodau i roi sylw i ddefnyddio TGCh a materion perthnasol. Nodwyd y bydd angen adolygu cyrff allanol yn unol â phenderfyniad y Cyngor ym mis Mai 2016.

Dywedodd y Cadeirydd y bydd o, ynghyd â'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn mynychu cyfarfod y Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol yn Llandudno ar 26 Hydref 2016 a'i fod yn fodlon cyfleu unrhyw faterion y dymuna'r Pwyllgor eu codi.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a chodwyd y pwyntiau canlynol :-

- Roedd gan Aelodau amheuon ynghylch y cynnydd yn y lwfans sylfaenol;
- Er eu bod yn fodlon â'r trefniadau sy'n cael eu gwneud yn awr o ran hyfforddi Aelodau newydd yn dilyn etholiadau Mai 2017, ystyriwyd bod angen cyflwyno sesiynau briffio yn raddol er mwyn rhoi cyfle i Aelodau ddirnad yr holl wybodaeth a gyflwynir iddynt.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a gofyn i'r Cadeirydd godi amheuon y Pwyllgor ynghylch y cynnydd yn y lwfans sylfaenol yng nghyfarfod y Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol a gynhelir ar 26 Hydref 2016.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

**4 CYNLLUN DATBLYGU AELODAU – EBRILL 2016 – MAWRTH 2017**

Cyflwynwyd – adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd a'r Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol mewn perthynas â'r rhaglen hyfforddiant drafft ar gyfer Aelodau yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2017.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod y Cynllun Datblygu Aelodau yn ceisio rhoi sylw i anghenion Aelodau drwy gefnogi ac arfarnu eu swyddogaeth fel Aelodau Etholedig. Rhoddwyd copi o'r Cynllun Datblygu ar gyfer y cyfnod Ebrill 2016 - Mawrth 2017 ynghlwm i'r adroddiad ac mae'n amlygu'r prif feysydd o ran cyfleoedd hyfforddi sy'n cael eu cynnig yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r Cynllun Datblygu'n ceisio diwallu anghenion Aelodau drwy gyfrwng gweithdai, mentora, e-ddysgu a sesiynau un-i-un. Ymhellach, dywedodd bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi datblygu rhaglen gynefino mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad gan gynnig y sylwadau canlynol :-

- Mae angen cyflwyno hyfforddiant cynefino gam wrth gam;
- Mae angen cynnal sesiynau Cyllideb a Rheoli Trysorlys yn ystod y 3 mis cyntaf fel paratoad ar gyfer y gyllideb flynyddol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r sylwadau a nodwyd uchod.**

**Gweithredu : Fel y nodwyd uchod.**

## 5 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2016/17

Cyflwynwyd – Rhaglen Waith arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2016/17.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr argymhellir bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn canolbwyntio ar yr agweddau canlynol :-

- Y Cynllun ar gyfer Datblygu a Hyfforddi Aelodau, gan gynnwys Adolygiadau Datblygiad Personol;
- Gweddarlledu cyfarfodydd;
- Adroddiadau Blynyddol Aelodau;
- Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol;
- Adolygu trefniadau i gefnogi Aelodau i bwrpas y Cyngor newydd gan gynnwys TGCh a chyrff allanol.

Yn codi o'r drafodaeth nododd Aelodau fod potensial i weddarlledu rhai cyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgiwtini pan drafodir materion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod adroddiad ar yr opsiynau sydd ar gael mewn perthynas â gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn.**

**Gweithredu : Fel y nodwyd uchod.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.35 pm

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **14 RHAGFYR 2016** |
| **TEITL:** | **GWEDDARLLEDU** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ADRODD AC ARGYMHELLION AR GYFER 2017/18** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

## 1.0 Cefndir a chyd-destun

1.1 Mae'r Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd wedi gofyn am adroddiad ar yr opsiynau sydd ar gael mewn perthynas â gweddarlledu, gan gynnwys ei ymestyn i'r Pwyllgorau Sgriwtini.

1.2 Ers Mehefin 2014, mae'r Cyngor wedi bod yn arbrofi gyda gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ac fe gyflwynwyd adroddiadau cynnydd i'r Pwyllgor hwn. Mae trefniadau cyfredol y Cyngor ar gyfer gweddarlledu cyfarfodydd yn unol â'r hyn sy'n cael ei wneud mewn nifer o Gynghorau yng Nghymru ac mae rhai awdurdodau wedi ymestyn gweddarlledu i gynnwys Pwyllgorau Sgriwtini yn arbennig felly er mwyn cynnwys eitemau sydd o ddiddordeb penodol i'r cyhoedd.

## 2.0 Gofynion yn y Dyfodol

2.1 Mae angen cadw'r cyd-destun cenedlaethol mewn cof wrth gynllunio ffordd ymlaen. Mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at weddarlledu yn y Mesur Llywodraeth Leol nesaf ac unrhyw ofynion mandadol yn y dyfodol. Yn y Papur Gwyn, Ad-drefnu Llywodraeth Leol, Grym i Bobl Leol (Chwefror 2015), cyfeiriwyd at "y bwriad ar y pryd i'w gwneud yn orfodol bod holl gyfarfodydd y Cyngor llawn a'r Pwyllgor gwaith yn cael eu darlledu ar-lein, tra, ar yr un pryd, yn annog darlledu Pwyllgorau".

## 3.0 Ariannu

3.1 Bydd yr Aelodau'n cofio i bob Cyngor dderbyn grant o £40k gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau sefydlu cynlluniau peilot ar gyfer gweddarlledu. Y sefyllfa gyllidol ar hyn o bryd yw bod darpariaeth yn y gyllideb i gwrdd â chostau 2016/17 yn unig – mae'r costau blynyddol oddeutu £10,000 ac nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi ei chynnwys yn y setliad drafft.

3.2 Argymhellir bod y Pwyllgor yn awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt barhau i ddarparu cymorth grant i gwrdd â chostau gweddarlledu ac unrhyw ymrwymiadau a fydd efallai'n cael eu nodi mewn unrhyw Fesur Llywodraeth Leol yn y dyfodol oherwydd ystyrir bod hyn yn gost ychwanegol i lywodraeth leol ar adeg o doriadau ariannol.

3.3 Oherwydd yr angen am eglurder ynghylch gofynion yn y dyfodol a chyllid o du Llywodraeth ganolog, mae'r UDA yn argymell y dylai'r trefniadau cyfredol barhau am 2017/18. Efallai y bydd y Pwyllgor hwn yn dymuno gwerthuso'r cynllun peilot cyfredol ar ôl cyfnod o dair blynedd, h.y. yn 2017/18 unwaith y ceir eglurder gan Lywodraeth Cymru.

3.4 Yn y cyfamser, argymhellir y bydd angen neilltuo darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer 2017/18 er mwyn cwrdd â'r costau cyfredol.

## 4.0 Argymhellion

1) Parhau gyda'r cynllun peilot i weddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn 2017/18.

2) Argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod swm o £10,000 yn cael ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2017/18 i gwrdd â'r costau angenrheidiol.

3) Cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru yn unol â pharagraff 3.2 uchod mewn perthynas â sicrhau cyllid gan lywodraeth ganolog i gwrdd ag unrhyw gostau a gofynion statudol yn y dyfodol.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**05.12.16**